# Eisteddfod Cyd – Enwadol Pontargothi a'r Cylch

Cynhaliwyd Eisteddfod Cyd-Enwadol Pontargothi a'r Cylch ar y 23ain o fis Mawrth. Er y niferoedd isel a fu'n cystadlu yn yr adran cynradd ac uwchradd, cawsom eisteddfod yn llawn cystadlu o'r safon uchaf.

Daeth dau gôr i gystadlu o dan 18 – Côr Eglwys Sant Ioan, Felingwm a Chôr Capel Siloam, Pontargothi. Cawsom 3 Côr yn cystadlu dros 18 - Côr Capel Nantgaredig, Côr Eglwys Llanfihangel Uwch-Gwili a Chôr Eglwys Sant Ioan, Felingwm. Braf oedd gweld amryw o wahanol dalentau yn y gystadleuaeth "'Sgen Ti Dalent?". Cawsom glocsio, unawdwyr a chôrau. Eleni fe gawsom 2 gystadleuaeth newydd – Ateb 5 cwestiwn a sillafu 5 gair o ddewis y beirniad i oed y cynradd ac uwchradd. Roedd hon yn gystadleuaeth boblogaidd iawn gyda'r bechgyn.

Yn cadw trefn ar yr holl gystadleuwyr ac yn ein harwain ni'n hwylus trwy'r eisteddfod oedd Mr Steffan Griffiths, Mrs Eleri James a Mrs Elonwy Phillips.

Mrs Meiriona Rees, Brodawel Capel Isaac oedd yn beirniadu'r llefaru a'r llenyddiaeth. Mrs Mared Williams, Cilycwm oedd yn beirniadu'r cerddoriaeth a Miss Mair Jones, Garreg-Goch Ganol a fu'n beirniadu'r adran gwaith llaw, arlunio a choginio.

Eleni, ein llywydd oedd Donna Howard o Felingwm.

Diolch i bawb a oedd yng nghlwm â'r eisteddfod i'w gwneud hi'n eisteddfod arbennig eleni eto. Ymlaen a ni i 2019!

Os hoffech weld rhagor o luniau, ymunwch â ni ar ein tudalen Facebook – Eisteddfod Cyd-Enwadol Pontargothi.